**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**180 – Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 8 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 52 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (adran 32) - SICM(5)32 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 21/10/2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 20/10/2020 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o bedwar offeryn ('Offerynnau 2020'). Mae Offerynnau 2020 gyda'i gilydd yn rhoi effaith i Brotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon (y 'Protocol') yn y Cytundeb Ymadael, ar gyfer diogelwch ac ansawdd gwaed a chydrannau gwaed, organau, meinweoedd a chelloedd, a chelloedd atgenhedlu (gametau ac embryonau) ar gyfer trin cleifion.

Mae'r Protocol yn nodi cyfraith yr UE a fydd yn parhau i fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon ac yno ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Rhaid i

Ogledd Iwerddon barhau i fodloni gofynion deddfwriaeth o'r fath cyhyd â bod y Protocol mewn grym. Mae'r gyfres o bedwar offeryn, gan gynnwys y Rheoliadau hyn, yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen i ganiatáu i Ogledd Iwerddon fodloni'r gofynion hynny.

Gwnaed pedwar offeryn blaenorol yn 2019 (“Offerynnau 2019") i sicrhau y byddai'r DU, wrth adael yr UE, yn cynnal y safonau diogelwch ac ansawdd cyfredol ar gyfer gwaed, organau, meinweoedd a chelloedd. Gwnaed Rheoliadau 2019 gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru fel rhan o'r ymarfer cywiriadau ar gyfer Ymadael â'r UE heb gytundeb yn 2019 i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n gywir. Gwnaeth Offerynnau 2019 hefyd welliannau i adlewyrchu'r ffaith bod Aelod-wladwriaethau'r UE yn dod yn drydydd gwledydd i'r DU. Mae Offerynnau 2020 yn cyfyngu'r newidiadau a wnaed gan Offerynnau 2019 i Brydain Fawr yn unig. Felly bydd y gyfraith gyfredol yn parhau ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 er mwyn galluogi'r darpariaethau a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau hynny i barhau i weithredu'n effeithiol yng ngoleuni'r Protocol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 15 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.
Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10**
Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ar 15 Hydref 2020, oherwydd bod y Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (yn yr achos hwn, adran 32 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004).

Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cynnig i drafod y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Cyfarfod Llawn (fel y nodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 15 Hydref 2020).